

## Canllawiau Camau Bach

### Aelodau'r Gweithgor

Ellyw Evans – Ysgol Pen y Bryn, Tywyn

Nerys Griffiths - Ysgol Yr Eifl, Trefor

Eirian Roberts – Ysgol Edmwnd Prys, Gellilydan

Partneriaid Cynorthwyol GwE

### Defnyddio'r adnodd

1. **Nid yw'r adnodd hwn yn gynllun gwaith cyflawn**
2. Y Rhaglen Astudio Mathemateg wedi'i thorri yn ddarnau mân yw'r adnodd hwn. Mae pob elfen **heblaw** Datblygu Ymresymu Rhifyddol yn gynwysedig, ond **nid** yr holl gamau bach. Bydd angen i'r ysgol sicrhau bod ymresymu rhifyddol yn greiddiol i'r holl elfennau.
3. Esiamlau o gamau bach yw'r rhain i'w defnyddio i fwydo'r cynlluniau gwaith mathemateg, yn arbennig y cynlluniau tymor canolig a byr.
4. Mae'r camau bach yma yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau mathemategol ac yn sicrhau nad oes blychau yn y ddarpariaeth.
5. Mae'n bwysig dewis a dethol y camau yn unol â gallu/cyrhaeddiad plant eich dosbarth / ysgol. Nid oes angen bob cam ar bob plentyn.
6. Byddai'n fuddiol ychwanegu mwy o gamau bach e.e. cwestiynau o'r profion **neu** ddileu rhai nad ydynt yn berthnasol i chi.
7. Nid yw pob cam bach angen un wers , bydd rhai yn cael eu defnyddio i gwestiynu yn y sesiynau pen, eraill fel un cwestiwn wrth ymarfer y cysyniad.
8. Gellid defnyddio'r adnodd i gynllunio gweithgareddau gwahaniaethol o fewn y gwersi mathemateg neu i baratoi adnoddau mathemateg mewn cyd-destun neu'n drawsgwricwlaidd.
9. Gellid eu defnyddio i adnabod y camau nesaf neu i dargedu unigolion neu grwpiau
10. Mae llawer o gamau yma, felly mae'n bwysig bod y trosolwg blwyddyn yn ei le er mwyn sicrhau nad oes gormod o amser yn cael ei dreulio ar un agwedd. Mae'n hanfodol bod yr holl elfennau'n cael sylw yn ystod y flwyddyn.